

## Terms of Reference for Bwrdd Glandŵr Cymru

### 1. Purpose

The purpose of the Bwrdd is to support the development of the work of the Trust through engagement in the social, economic, political and cultural life of Wales. This will include:

- ensuring the Trust has a good understanding of the needs, issues and opportunities relevant to the waterways of Wales
- building influence and partnership working to support the work of the Trust in Wales
- developing a base of information relevant to the development of the waterways of Wales
- promoting the Trust and raising its profile in social, economic, political and cultural life of Wales
- working with the Trust to ensure its strategies and plans are developed and delivered effectively in the context of Wales

### 2. Membership.

- The Bwrdd has a total of between 6 and 10 members
- The Chair of the Bwrdd is appointed by the Appointments Committee
- Members of the Bwrdd are appointed by the Appointments Committee and selected to provide a range of skills and experience relevant to the development of the Waterways of Wales
- Members will serve terms of up to two terms not exceeding 4 years (i.e. a maximum of 8 years)
- The Chair may co-opt members to provide specific skills and experience or for particular tasks, such appointments would not normally exceed 12 months
- Membership of the Bwrdd will be voluntary and unsalaried although reasonable travelling expenses will be paid

### 3. Management of Meetings and Business of the Board.

- The Bwrdd meets at least 3 times a year
- Meetings are convened by the Chair
- The Trust's management will appoint a person to act as the administrator of the Bwrdd, taking notes for publication on the Trust's website, with other Trust employees attending as required
- A record of the main meetings of the Bwrdd to be published on the Trust website
- Topics for consideration by the Bwrdd at its meetings are to be agreed by the Chair and Trust's Chief Executive
- The Bwrdd regularly engages with South West Regional Advisory Board Chairs to ensure alignment
- The Chair may invite other specialists to meetings as required.

### 4. Nomination of Bwrdd Member to the Trust's Council

- The Trust's Rules specify that the Bwrdd is to nominate one of its members to the Trust's Council
- The Bwrdd shall nominate one of its members and the Chair shall communicate this nomination in writing to the Trust's Governance team

## Cylch Gorchwyl ar gyfer Bwrdd Glandŵr Cymru

### 5. Diben

Diben y Bwrdd yw cefnogi'r broses o ddatblygu gwaith yr Ymddiriedolaeth drwy ymgysylltu â bywyd cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol a diwylliannol Cymru. Bydd hyn yn cynnwys:

- sicrhau bod gan yr Ymddiriedolaeth ddealltwriaeth dda o anghenion, materion a chyfleoedd sy'n berthnasol i ddyfrffyrdd Cymru
- meithrin dylanwad a gwaith partneriaeth er mwyn cefnogi gwaith yr Ymddiriedolaeth yng Nghymru
- datblygu sail wybodaeth sy'n berthnasol i'r gwaith o ddatblygu dyfrffyrdd Cymru
- hyrwyddo a chodi proffil yr Ymddiriedolaeth ym mywyd cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol a diwylliannol Cymru
- cydweithio â'r Ymddiriedolaeth er mwyn sicrhau bod ei strategaethau a'i chynlluniau'n cael eu datblygu a'u darparu'n effeithiol yng nghyd-destun Cymru

### 6. Aelodaeth.

- Mae gan y Bwrdd gyfanswm o rhwng 6 a 10 o aelodau
- Caiff Cadeirydd y Bwrdd ei benodi gan y Pwyllgor Penodiadau
- Caiff Aelodau'r Bwrdd eu penodi gan y Pwyllgor Penodiadau a chant eu dewis er mwyn darparu amrywiol sgiliau a phrofiad sy'n berthnasol i'r gwaith o ddatblygu Dyfrffyrdd Cymru
- Bydd Aelodau'n gwasanaethu am hyd at ddau dymor heb fod yn fwy na 4 mlynedd (h.y. uchafswm o 8 mlynedd)
- Gall y Cadeirydd gyfethol aelodau er mwyn darparu sgiliau a phrofiad penodol neu ar gyfer tasgau penodol, ni fyddai penodiadau o'r fath am gyfnod yn hirach na 12 mis fel arfer
- Bydd Aelodaeth y Bwrdd yn wirfoddol ac yn ddigwydol er y bydd treuliau teithio rhesymol yn cael eu talu

### 7. Rheolaeth Cyfarfodydd a Busnes y Bwrdd.

- Mae'r Bwrdd yn cyfarfod o leiaf 3 gwaith y flwyddyn
- Caiff cyfarfodydd eu galw gan y Cadeirydd
- Bydd rheolwyr yr Ymddiriedolaeth yn penodi unigolyn i weithredu fel gweinyddwr y Bwrdd, gan gymryd nodiadau i'w cyhoeddi ar wefan yr Ymddiriedolaeth, gyda gweithwyr cyflogedig eraill yr Ymddiriedolaeth yn bresennol yn ôl y gofyn
- Bydd cofnod o brif gyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Ymddiriedolaeth
- Bydd y Cadeirydd a Phrif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth yn cytuno ar y pynciau i'w hystyried gan y Bwrdd yn ei gyfarfodydd
- Mae'r Bwrdd yn ymgysylltu'n rheolaidd â Chadeiryddion Bwrdd Cyngor Rhanbarthol y De-orllewin er mwyn sicrhau cysondeb
- Gall y Cadeirydd wahodd arbenigwyr eraill i gyfarfodydd yn ôl y gofyn.

### 8. Enwebu Aelod o'r Bwrdd i Gyngor yr Ymddiriedolaeth

- Mae Rheolau'r Ymddiriedolaeth yn nodi y bydd y Bwrdd yn enwebu un o'i aelodau i Gyngor yr Ymddiriedolaeth
- Bydd y Bwrdd yn enwebu un o'i aelodau a bydd y Cadeirydd yn cyfathrebu'r enwebiad hwn yn ysgrifenedig i dîm Llywodraethu'r Ymddiriedolaeth

Diweddarwyd ar 21 Tachwedd 2019 gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.